# Senarios Cyffredin O Ran Sylwadau Ynghylch Lonydd Bysiau A Thraffig Sy'n Symud

# Common Scenarios For Bus Lane And Moving Traffic Representations



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

**Senarios Cyffredin o Ran Sylwadau Ynghylch Lonydd Bysiau a Thraffig Sy'n Symud**

Mae'r amgylchiadau sy'n ymwneud â Hysbysiad Tâl Cosb penodol yn unigryw ac felly bydd pob Hysbysiad yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau ei hun. Felly mae'r canlynol er gwybodaeth yn unig fel arweiniad i roi syniad i chi a fydd modd i ni ganslo eich Hysbysiad Tâl Cosb. Efallai y bydd dal angen i chi dalu'r gosb hyd yn oed os yw'r isod yn dangos ei bod yn debygol y bydd yr Hysbysiad yn cael ei ganslo.

| **Senario** | **A yw'r debygol y bydd yr Hysbysiad Tâl Cosb yn cael ei ganslo?** | **Rheswm (os yw'n berthnasol)** |
|---|---|---|
| Nid fi oedd y gyrrwr ar y pryd | Nac ydy | Mae deddfwriaeth yn golygu mai'r perchennog sy'n atebol am y tâl cosb nid y gyrrwr. Os oedd y cerbyd yn cael ei logi, yna, yr un sy'n llogi sy'n atebol. |
| Roeddwn yn dilyn fy llywiwr lloeren | Nac ydy | Canllaw yn unig yw llywiwr lloeren, a chyfrifoldeb y gyrrwr yw rhoi digon o sylw i'r ffordd er mwyn cydymffurfio ag unrhyw gyfyngiadau traffig. |
| Dim ond newydd basio fy mhrawf gyrru oeddwn i | Nac ydy | Disgwylir i unrhyw un sy'n gyrru ar y ffordd fod yn ymwybodol o ystyron yr holl gyfyngiadau traffig waeth faint o amser y maent wedi bod yn gyrru. |
| Roeddwn i'n teimlo'n sâl | Nac ydy | Os ydych chi'n teimlo'n sâl mae dal cyfrifoldeb arnoch chi i yrru'n gywir. Os ydych mor sâl â hynny a'ch bod yn teimlo y byddai'n rhaid i chi dorri cyfyngiad traffig, dylech stopio'r car ar unwaith mewn man addas a ffonio'r gwasanaethau brys.<br><br>Os gwelir bod eich cerbyd yn stopio ar unwaith yn y modd hwn, yna efallai y bydd yr Hysbysiad Tâl Cosb yn cael ei ganslo. |
| Hwn oedd fy Hysbysiad Tâl Cosb cyntaf | Nac ydy | Mae'n ofynnol i chi gadw at reolau'r ffordd bob amser. |

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

| | | |
|---|---|---|
| Roeddwn yn tynnu i mewn i'r lôn fysiau i ganiatáu i gerbyd y gwasanaethau brys a oedd ar alwad i basio | Ydy | Ni fydd y Cyngor yn gorfodi unrhyw Hysbysiad Tâl Cosb lle mae'n amlwg bod y lôn fysiau wedi cael ei defnyddio i ganiatáu i gerbyd y gwasanaethau brys oedd ar alwad i basio gan ei bod yn hanfodol i'r cerbydau hyn gyrraedd eu cyrchfan cyn gynted â phosibl. |
| Ni wnaeth y Cyngor ddilyn y gweithdrefnau cywir wrth gyhoeddi neu orfodi'r Hysbysiad Tâl Cosb. | Nac ydy<br><br>Ydy (os oes modd profi hyn) | Mae'r Cyngor yn sicrhau ei fod yn dilyn y weithdrefn gywir bob amser.<br>Fodd bynnag, mae'r Cyngor o dan rwymedigaeth gyfreithiol i ddilyn y gweithdrefnau cywir. Os nad yw'n gwneud hynny ar achlysur penodol, yna mae'r Hysbysiad Tâl Cosb yn annilys a bydd yn cael ei ganslo. |
| Nid oeddwn wedi sylwi ar yr arwyddion neu'r marciau ffordd na'u deall | Nac ydy | Cyfrifoldeb y gyrrwr yw bod yn gwbl ymwybodol o Reolau'r Ffordd Fawr ac, yn ystod y daith, mae'n ofynnol i bob gyrrwr ddeall a gweithredu ar yr holl arwyddion traffig a marciau ffordd i sicrhau ei fod yn cadw atynt. |
| Roedd yr arwyddion traffig neu'r marciau ffordd yn Gymraeg | Nac ydy | Mae'r Cyngor o dan rwymedigaeth gyfreithiol i ddarparu arwyddion a marciau ffordd dwyieithog. Gan y bydd y Saesneg bob amser yn dilyn y Gymraeg nid yw hwn yn eithriad. |
| Es i mewn i'r gyffordd sgwâr pan oedd y traffig yn llifo'n esmwyth ond yna daeth i stop sydyn. Nid fy mai i oedd hyn. | Nac ydy | Mae gennych hawl i fynd i mewn i gyffordd sgwâr pan fydd traffig yn llifo, ond mae risg y byddwch yn groes i'r rheolau os daw'r traffig i stop wedyn. Y ffordd orau o sicrhau nad ydych yn stopio mewn cyffordd sgwâr yn anghyfreithlon yw dilyn y cyngor yn rheol 174 o Reolau'r Ffordd Fawr. |
| Es i mewn i'r lôn fysiau wrth i mi droi i'r chwith wrth y gyffordd nesaf | Nac ydy | Dylai gyrwyr sy'n bwriadu troi i'r chwith aros yn y lôn heb gyfyngiadau hyd nes bod bwlch llawn, neu linell wen â bylchau yn y marciau ar gyfer y lôn fysiau, ac ar yr adeg honno caniateir iddynt groesi'r lôn fysiau er mwyn troi i'r chwith. Fel arall, rhaid iddynt aros am y saeth gyfeiriadol a'r arwyddion sy'n dangos diwedd y lôn |

| | | |
|---|---|---|
| | | fysiau cyn y gallant symud i droi i'r chwith. |
| Roeddwn yn y lôn fysiau am lai na 20 metr. Mae hawl gan yrwyr ddefnyddio lonydd bysiau am lai na 20 metr! | Nac ydy | Nid oes isafswm pellter y mae'n rhaid i gerbyd deithio cyn y gellir ystyried ei fod yn mynd yn groes i'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig sydd ar waith. Bydd unrhyw achos lle mae'r pellter a deithiwyd yn destun dadl neu'n cael ei gwestiynu yn ddibynnol ar ei rinweddau ei hun a ffeithiau penodol. |
| Roeddwn yn weithiwr y gwasanaethau brys ond nid ar alwad | Nac ydy | Oni bai bod eithriad dilys wedi ei ddarparu gan y Cyngor, neu ei gynnwys yn y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig perthnasol, oni bai eich bod ar alwad neu os yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith i chi dorri'r cyfyngiad traffig, ni chaniateir i chi anwybyddu cyfyngiadau traffig - megis stopio mewn cyffyrdd sgwâr. |
| Nid oedd unrhyw arwyddion yn cynghori bod gorfodi rheolau traffig mewn grym, felly sut oeddwn i wybod y byddwn i'n derbyn Hysbysiad Tâl Cosb? | Nac ydy | Mae arwyddion gorfodi traffig wedi'u gosod mewn lleoliadau priodol i atgoffa modurwyr i gydymffurfio. |
| Roeddwn yn gyrru yn unol ag eithriad/caniatawyd i'm cerbyd wneud y tro sydd wedi'i wahardd neu fel arall byddwn mewn lôn fysiau | Ydw/Yd yn | Os oes gennych reswm dilys dros anwybyddu'r cyfyngiad, er enghraifft i fod mewn lôn fysiau at ddibenion llwytho neu ddadlwytho pan nad yw gwaharddiad llwytho mewn grym, ni fydd Hysbysiad Tâl Cosb fel arfer yn cael ei gyhoeddi. Os felly, chi fydd yn gyfrifol am brofi eich bod yn cyflawni’r gweithgaredd a ganiateir ar ôl apelio |
| Nid oeddwn yn berchen ar y cerbyd nac yn ei logi ar adeg torri’r rheol honedig | Ydw/Yd yn | Mae rheoliadau Cymru yn nodi mai perchennog y cerbyd sy'n gyfrifol am yr Hysbysiad Tâl Cosb oni bai bod y cerbyd yn cael ei logi yna'r llogwr fydd yn gyfrifol. Fodd bynnag, os nad chi oedd perchennog y cerbyd, bydd gofyn i chi brofi hynny. |

| | | |
|---|---|---|
| Roedd fy ngherbyd yn cael ei yrru heb fy nghaniatâd | Cywir (os oes tystiolaeth yn cael ei darparu) | Os gallwch brofi bod eich cerbyd wedi'i gymryd heb eich caniatâd (e.e., ei ddwyn) yna bydd yr Hysbysiad Tâl Cosb yn cael ei ganslo. Fodd bynnag, bydd angen i chi ddarparu cyfeirnod trosedd dilys ac unrhyw dystiolaeth arall i ddangos hyn. |
| Ni allaf fforddio talu'r gosb | Nac ydy | Gan na ddylai'r gosb fod wedi digwydd yn y lle cyntaf, nid yw hyn yn rhoi sail dda i ganslo'r Hysbysiad Tâl Cosb. Fodd bynnag, os caiff ei brofi, gall rhai amgylchiadau ariannol arwain at y Cyngor yn darparu cynllun talu. Fodd bynnag, mae hyn yn gwbl ddibynnol ar ddisgresiwn.<br><br>Os ydych eisoes wedi gofyn am gynllun talu yn y gorffennol, ond wedi methu â chadw at hyn, yna mae'n annhebygol iawn y bydd cynllun talu arall yn cael ei ganiatáu. |
| Nid wyf wedi derbyn yr Hysbysiad Tâl Cosb | Nac ydy<br><br>Cywir (os darperir tystiolaeth addas) | Mae'r Cyngor yn cadw cofnodion post o'r holl Hysbysiadau Tâl Cosb a anfonwyd. Os ydym wedi dilyn ein gweithdrefnau'n gywir, mae'r gyfraith yn datgan bod yr Hysbysiad Tâl Cosb yn cael ei roi oni bai eich bod yn gallu profi fel arall.<br><br>Os ydych yn gallu profi fel arall, yna mae'n rhaid darparu'r prawf hwn fel tystiolaeth i'r Cyngor. |
| Rydych wedi torri'r Ddeddf Hawliau | Nac ydy | Mae'r ddadl hon wedi ei rhoi gerbron yr Uchel Lys ac mae wedi cael ei disgrifio fel un "cwbl anobeithiol”. |
| Nid oeddwn wedi cytuno i gontract gyda chi felly nid oedd gennych hawl i gyhoeddi'r Hysbysiad Tâl Cosb. | Nac ydy | Nid mater cytundebol yw hwn, ond mater a osodwyd mewn deddfwriaeth statudol. Felly, nid oes angen i'r Cyngor ymrwymo i gontract gyda chi i orfodi'r Hysbysiad Tâl Cosb. |

| | | |
|---|---|---|
| Mae gwneuthuriad fy ngherbyd yn anghywir ar yr Hysbysiad Tâl Cosb. | Ydy | Nid yw'n ofyniad cyfreithiol i'r gwneuthuriad na'r lliw fod yn gywir ar yr Hysbysiad Tâl Cosb; fodd bynnag, os yw'r Hysbysiad Tâl Cosb yn ymwneud â thraffig symudol neu lôn fysiau ac mae'r gwneuthuriad yn anghywir ac yn cael ei brofi i fod yn anghywir, yna gellir canslo'r Hysbysiad Tâl Cosb. |

| **SENARIO** | **GELLIR DERBYN Y SYLWADAU** | **GELLIR GWRTHOD Y SYLWADAU** |
|---|---|---|
| lle mae'r modurwr yn honni ei fod wedi mynd yn sâl tra oedd yn gyrru | Os bydd y modurwr yn darparu prawf o gyflwr meddygol, dros dro neu barhaol, sy'n gyson â'r amodau a ddisgrifiwyd. Pan fydd y nodiadau a wnaed gan y Warden Parcio yn ategu sylwadau'r modurwr. | Os na all y modurwr ddarparu rhyw brawf o gyflwr meddygol, dros dro neu barhaol, sy'n gyson â'r amodau a ddisgrifiwyd. Neu Lle mae tystiolaeth arall yn gwrthddweud honiadau'r gyrrwr. |
| lle mae'r modurwr yn honni ei fod yn feddyg, nyrs, ymwelydd iechyd yn mynd i weld claf | Os yw'r modurwr dan sylw yn meddu ar Fathodyn Hawl Feddygol (BMA, HEBS) y mae'r Cyngor dan sylw yn ei gydnabod a'i gymeradwyo a/neu ei fod yn cael ei eithrio o dan y Gorchymyn perthnasol. Neu Os bydd y modurwr yn darparu tystiolaeth ei fod yn ymateb i alwad feddygol frys. | Os nad oedd y modurwr yn mynd i weld claf o dan amgylchiadau brys neu os oedd llefydd parcio cyfreithiol gerllaw. Os oedd y modurwr wedi parcio y tu allan i'w bractis neu fan gwaith arall am unrhyw reswm ar wahân i gasglu cyflenwadau ar gyfer galwad frys. Os oedd y modurwr wedi parcio mewn ardal nad yw'n cyfateb i'r honiadau a wnaed yn y sylwadau, h.y. ymhell o eiddo'r claf, dyweder, mewn maes parcio. |
| lle stopiodd y modurwr i ddefnyddio'r toiled | Os cynhyrchir tystiolaeth feddygol yn cadarnhau cyflwr meddygol perthnasol ac yn ategu'r | Dan bob amgylchiad arall. |

| | | |
|---|---|---|
| | amgylchiadau a ddisgrifiwyd yn y sylwadau. | |
| lle stopiodd y modurwr i gasglu meddyginiaeth (ar bresgripsiwn) o fferyllfa | Dim ond o dan yr amgylchiadau mwyaf difrifol, brys ac eithriadol ac y byddai defnyddio lle parcio ‘cyfreithiol’ wedi achosi oedi annerbyniol. | Dan unrhyw amgylchiadau llai. |
| lle’r oedd y modurwr yn glaf yn ymweld â meddygfa | Os gall y modurwr ddarparu llythyr gan feddyg i gadarnhau bod yr ymweliad yn un lle’r oedd brys mawr ac na allai gerdded o’r lle parcio cyfreithiol agosaf. | Os nad y modurwr oedd y claf ac nad oedd ond yn gyrru’r cerbyd oedd yn cario’r claf Os oedd y modurwr yn cadw apwyntiad a oedd wedi’i drefnu ymlaen llaw, nad oedd yn un brys. Pe gellid yn rhesymol fod wedi disgwyl i’r modurwr barcio’n gyfreithiol yn rhywle arall. |

**DIFFINIADAU**

| DISGRIFIAD | DIFFINIAD |
|---|---|
| **Dyfais gymeradwy** | Camera sydd wedi'i gymeradwyo gan Weinidogion Cymru i'w ddefnyddio wrth ganfod tramgwyddau o ran parcio, lôn fysiau a/neu draffig sy'n symud |
| **CS** | Tystysgrif Tâl |
| **CEO** | Swyddog Gorfodi Sifil |
| **Her** | Yr her anffurfiol yn erbyn cyhoeddi Hysbysiad Gorfodi Tâl |
| **Disgownt o ran y swm y gosb** | £25 neu £35 yn dibynnu ar y math o reol a dorrwyd |
| **Swm llawn y gosb** | £50 neu £70 yn dibynnu ar y math o reol a dorrwyd |
| **Cynyddu swm y gosb** | £75 neu £105 yn dibynnu ar y math o reol a dorrwyd |

| | |
|---|---|
| **MiPermit** | y contractwr rydym yn ei ddefnyddio ar gyfer meysydd parcio di-arian neu hawlenni rhithwir |
| **NTO** | Hysbysiad i'r perchennog |
| **Gorchymyn i Adennill (TE3)** | dogfen a anfonwyd gan TEC i hysbysu'r derbynnydd bod swm y gosb sydd wedi cynyddu wedi'i gofrestru fel dyled gyda Llys Sirol Northampton. |
| **PCN** | Hysbysiad Tâl Cosb |
| **Sylwadau** | yr her ffurfiol yn erbyn Hysbysiad i Berchennog neu Hysbysiad Tâl Cosb yn y post |
| **TEC** | Canolfan Gorfodi Traffig yn Llys Sirol Northampton sy'n awdurdodi Gorchmynion ar gyfer Adfer a Gwarantau |
| **DATGANIAD TYST (TE9)** | dogfen a anfonwyd gyda TE3 yn rhoi cyfle i'r derbynnydd apelio i'r llys yn erbyn cyhoeddi'r TE3 |